




GWNEUTHURWYR NEWID: CREADIGRWYDD A CHREU GWERTH



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

CYFLWYNIAD MODIWL



Cynnwys

3. Croeso i'r Modiwl

4. 'Be More Pirate'

**6. Canfod Ffordd
Drwy'r Modiwl**

Croeso i'r Modiwl:

Gwneuthurwyr Newid:

Creadigrwydd a Chreu Gwerth

Nod y modiwl hwn yw:

Datblygu cysyniadau ac ymarfer creadigrwydd a chreu gwerth er mwyn datblygu atebion arloesol, uchelgeisiol a blaengar.

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus, byddwch yn gallu:

- Dangos gwybodaeth am, a dealltwriaeth feirniadol o, feddylfryd arloesol, creadigol a mentrus, gan gydnabod gwerth a chyfraniad creadigrwydd er lles pawb.
- Dychmygu, disgrifio a defnyddio meddwl creadigol mewn cyd-destun gwaith neu academiaidd i ddatblygu atebion arloesol a/neu greu gwerth.

Mae'r modiwl hwn yn ystyried cyfraniad arloesedd a chreadigrwydd ym mhedwar ban byd, sut mae'n llywio cymdeithas a'r ffordd rydym yn byw a gweithio. Gan gymryd ymagwedd gyfuniadol, drwy ddangos y berthynas rhwng llawer o safbwyntiau academiaidd, mae'r modiwl hwn yn tynnu ar dystiolaeth, damcaniaethau, cysyniadau a fframweithiau o safbwynt amlddisgyblaethol.

Lluniwyd yr unedau yn y modiwl i'ch helpu i ddatblygu sgiliau i nodi a chanlyn cyfleoedd, a datblygu syniadau i greu gwerth sy'n cyfrannu at blaned gynaliadwy.

Mae'r sgiliau'n cynnwys datrys problemau'n greadigol i ddatblygu atebion ymarferol; gweithio ar y cyd ac yn foesol ar heriau amwys, cymhleth ac agored; dangos gwydnwch; a'r gallu i ddysgu, o brofiad personol uniongyrchol a phrofiadau pobl eraill.

‘BE MORE PIRATE’

Ydych chi erioed wedi meddwl am sut y gall unigolion herio ac ail-lywio'r byd?

Yn y llyfr *Be more Pirate*, mae Sam Conniff Allende yn esbonio sut yr heriodd grŵp bach o herfeiddwyr y Llynges Brydeinig gyfan yn y 17eg ganrif ac, am gyfnod byr, ennill. Gwnaethon nhw hynny drwy fod yn greadigol a newid y pethau o'u cwmpas roeddent yn meddwl eu bod yn anghywir.

Er enghraifft, newidion nhw eu hamodau gweithio i'w gwneud yn deg; newidion nhw gyfraddau tâl i fod yn deg. Newidion nhw'r dull arwain i fod yn ddemocratig. A gwnaethon nhw hyn o dan faner y mae ei logo yn parhau i fod yn gyfarwydd i ni heddiw.

Yn gryno, defnyddiodd y môr-ladron eu creadigrwydd i newid eu byd ac wrth wneud hynny, cyflwynwyd gwerth digynsail i'w bywydau.

Gall gwneuthurwyr yr oes gyfoes ddysgu gwersi o hyn.


Mae creadigrwydd yn ychwanegu gwerth mewn llawer o ffyrdd, o ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau newydd sy'n gwella ein bywydau, i sbarduno symudiadau megis Extinction Rebellion ac Mae Bywydau Du o Bwys. Yn ystod y modiwl hwn, bydd gofyn i chi ddatblygu syniad sy'n gallu creu gwerth yn eich cymuned a'r tu hwnt iddi.



Marcus
Rashford's
free school
meals



Bill and Melinda
Gates:
Business and
Philanthropy



Lady Gaga
Avant-Guard
Musician



Mae Gwneuthurwyr Newid: Creadigrwydd a Chreu Gwerth wedi'r rannu'n bedair uned i'ch cefnogi wrth ddatblygu eich syniad:




Syniadau a Gwerth



Atebion Creadigol



Meithrin Cefnogaeth



Gwerthuso

Mae pob uned yn cynnwys hyd at 10 awr o weithgareddau i chi weithio eich ffordd trwyddyn nhw, a bydd tiwtor yno i'ch cefnogi a'ch arwain pan fydd angen. Yn ogystal, bydd 6 awr o wersi rhithwir gyda'ch tiwtor modiwl.

Mae'r modiwl yn cynnwys dau aseiniad, e-bortffolio ac asesiad ysgrifenedig y byddwch yn dod o hyd iddynt yn Llawlyfr y Modiwl.

Canfod Ffordd Drwy'r Modiwl

Ar dudalen y Modiwl, byddwch yn gweld sawl teilsen sy'n cynnwys adnoddau i gefnogi eich dysgu ar y modiwl.

Wrth i chi weithio drwy'r modiwl, dylech gadw llygad am yr eiconau canlynol:



Bydd clicio ar yr eicon hwn yn datgelu gwybodaeth ac arweiniad defnyddiol sy'n berthnasol i gynnwys y sleid.



Mae'r eicon hwn yn nodi brasamcan yr amser y dylai ei gymryd y gwblhau sesiwn neu weithgaredd.



Mae'r eicon hwn yn agor dolen i adnodd allanol mewn ffenestr porwr newydd.



Pan fyddwch chi'n gweld yr eicon hwn, mae'n **RHAID** cwblhau'r gweithgaredd a nodir er mwyn cwblhau'r pwnc ac ennill credydau modiwl.



Mae'r eicon hwn yn nodi y dylech chi gymryd nodiadau gan ddefnyddio eich dull dewisol neu yn ôl y cyfarwyddyd yn nisgrifiad y gweithgaredd.



Pan fyddwch chi'n gweld yr eicon Symud Ymlaen, cewch eich cyfeirio at ddeunyddiau ychwanegol neu weithgareddau ymestyn sy'n berthnasol i bynciau'r modiwl.

Bydd cwblhau gweithgareddau yn ennill marciau i chi tuag at elfen cymryd rhan yr asesiad.

Gallwch wirio'ch cynnydd drwy'r bar cwblhau ar deilsen y modiwl a thrwy chwilio am y tic gwyrdd wrth ymyl y gweithgaredd Moodle.



Mae'r eicon hwn yn nodi eich bod wedi cwblhau gweithgaredd y gofynnwyd i chi ei wneud. Bydd cwblhau gweithgareddau penodol yn ennill bathodynau i chi wrth i chi symud drwy'r modiwl. Casglwch yr holl fathodynau i gael marciau llawn ar gyfer elfen cymryd rhan yr asesiad.

Yn y modiwl hwn, mae tri bathodyn i chi eu casglu.




Rhoddir y bathodyn trafod am gymryd rhan yn nhrafodaethau fforwm y grŵp. I ennill y bathodyn hwn, rhaid i chi gymryd rhan mewn trafodaethau a gwneud sylwadau ar gyfraniadau pobl eraill.



Rhoddir y bathodyn blog am gwblhau gweithgareddau blogio.



Rhoddir y bathodyn cyfranogiad am lefel eich cyfranogiad yng nghynnwys y modiwl. I ennill y bathodyn, rhaid i chi weithio drwy'r deunydd dysgu ar y dudalen Moodle.



Bydd casglu pob un o'r tri bathodyn yn dangos y dyfarnwyd marciau llawn i chi ar gyfer elfen cymryd rhan yr asesiad. Peidiwch â phoeni os na fyddwch yn llwyddo casglu'r bathodynnau. Byddwch o hyd yn derbyn rhai marciau yn seiliedig ar lefel eich cyfraniadau at weithgareddau'r modiwl.

Byddwch yn dod o hyd i bopeth y mae ei angen arnoch ar dudalen Moodle y modiwl, lle mae hefyd fforwm holi ac ateb i godi unrhyw bryderon a allai fod gennych wrth symud drwy'r deunydd.

Rydych chi bellach yn barod i ddechrau dysgu.

Pob lwc!



Prifysgol Cymru

Y Drindod Dewi Sant

University of Wales

Trinity Saint David
